# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

**EUR(3)-06-10: Papur 2: 20 Ebrill 2010:**

## Rhaglen Waith y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol – Blaenoriaethau Strategol Ewropeaidd ar gyfer 2010-11

**Crynodeb**

Paratowyd y papur hwn fel sail i waith craffu'r Pwyllgor ar bolisi Ewropeaidd ar gyfer gweddill 2010 a thymor cyntaf 2011.

Mae'n seiliedig ar Raglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2010, a gyhoeddwyd ar 31 Mawrth 2010. Mae hefyd yn seiliedig ar waith parhaus y Pwyllgor, a'r cylch gwaith ehangach o weithgareddau y mae'r Pwyllgor yn ymgymryd â hwy, fel y'u nodwyd yn Null Strategol y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ym mis Ionawr 2009[1].

**Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor:**

Ystyried a thrafod y papur amgaeedig a nodi / blaenoriaethu'r materion hynny

i) y dylai'r Pwyllgor fod yn eu hystyried yn ystod gweddill 2010 ac, o bosibl, yn nhymor cyntaf 2011 (gweler Tabl 1)

ii) y dylid eu cyfeirio at bwyllgorau eraill y Cynulliad i'w hystyried (gweler Tabl 2).

Yn seiliedig ar gasgliadau'r Pwyllgor, bydd Clerc a Chadeirydd y Pwyllgor yn cytuno ar raglen waith fanwl, yn cynnwys trefnu papurau cwmpasu yn ôl y gofyn.

| Cynnwys | Tudalennau |
|---|---|
| A. Cyflwyniad | 2 |
| B. Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2010: crynodeb | 2-6 |
| C. Argymhellion o'r materion strategol y dylai'r Pwyllgor eu dilyn yn ystod 2010 | 6-7 |
| D. Materion posibl y gellid eu cyfeirio at bwyllgorau eraill y Cynulliad | 8-9 |

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Gregg Jones
Ffôn: Gregg Jones (Brwsel) 00 32 22 26 66 92 e-bost: Gregg.Jones@Wales.gsi.gov.uk

[1] EUR(3)-01-09 - Papur 5

## A. Cyflwyniad: Dull Strategol y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

Ym mis Ionawr 2009, mabwysiadodd y Pwyllgor ddull strategol ar gyfer ei waith ym maes materion Ewropeaidd ac allanol. Amlygodd hwn bedwar prif faes:

- Craffu ar waith Llywodraeth Cynulliad Cymru (yn cynnwys y gwaith y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud ym maes materion Ewropeaidd ac allanol, a'r gwaith o godi proffil Cymru'n rhyngwladol)
- Ystyried y prif gynigion strategol Ewropeaidd
- Monitro cynigion deddfwriaethol penodol yr UE , gan gynnwys eu goblygiadau o ran sybsidiaredd
- Deall a chyfranogi (gwaith Aelodau Cymru o Senedd Ewrop, cynrychiolwyr Cymreig ar Bwyllgor y Rhanbarthau, a'r ffordd y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn mynd i'r afael â chysylltiadau allanol)

Er mwyn penderfynu ar ba faterion polisi y dylid eu blaenoriaethu, mae'r Pwyllgor yn adolygu Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae'r ymarfer blaenoriaethu hwn, a gaiff ei ategu gan ddiweddariadau cyson ynghylch datblygiadau polisi yn yr UE yn ystod y flwyddyn (a'r memoranda esboniadol perthnasol gan Lywodraeth y DU) hefyd yn sail i waith monitro'r Pwyllgor yng nghyd-destun y Protocol Sybsidiraedd a gyflwynwyd gan Gytuniad Lisbon. Bellach, mae'r Pwyllgor yn edrych ar sut y bydd y gwaith hwn yn cael ei gefnogi'n fwy cyffredinol, drwy gydweithio'n agos â'r deddfwriaethau datganoledig eraill a Thŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, a thrwy gyfranogaeth barhaus ym Mhlatfform Monitro Sybsidiaredd Pwyllgor y Rhanbarthau.

## B. Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2010: crynodeb

### B.1 Crynodeb

Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei Raglen Waith Flynyddol ar gyfer 2010[2] ar 31 Mawrth 2010. Cafodd y Rhaglen ei datblygu o fewn fframwaith y canllawiau gwleidyddol a gyflwynwyd gan yr Arlywydd Barroso ym mis Medi 2009, ac mae'n gosod blaenoriaethau strategol y Comisiwn ar gyfer 2010 a thu hwnt.

Mae'r Comisiwn newydd yn cynnig canolbwyntio ar **bedair prif thema** yn ystod ei dymor pum mlynedd:

- Mynd i'r afael â'r argyfwng economaidd a chynnal marchnad economi gymdeithasol Ewrop.
- Llunio agenda i ddinasyddion sy'n rhoi pobl wrth galon gweithredu Ewropeaidd
- Datblygu agenda allanol uchelgeisiol a chydlynol sydd â chyrhaeddiad byd-eang

- Moderneiddio offerynnau a dulliau'r UE o weithio

Mae'r ddogfen yn cynnwys naratif ddeg tudalen sy'n amlinellu'r prif themâu a mentrau strategol sydd i'w datblygu yn ystod 2010, sy'n cael ei ategu gan bedwar atodiad technegol:

- Rhestr o **34 o fentrau strategol** (deddfwriaethol ac anneddfwriaethol) sydd i'w mabwysiadu **yn ystod 2010** (Atodiad 1 o'r Raglen Waith). Ystyrir y rhain yn fanwl isod. O ran cymhariaeth, cyflwynodd y Comisiwn 12 o fentrau strategol yn 2009, 26 yn 2008, a 21 yn 2007.

- Rhestr ddangosol o **280 o fentrau strategol / blaenoriaethau posibl** (deddfwriaethol ac anneddfwriaethol) sy'n cael eu hystyried ar gyfer **2010 a thu hwnt** (Atodiad 2 o'r Rhaglen Waith). Caiff y rhain eu grwpio yn ôl maes polisi (ee Amaeth a Datblygu Gwledig, yr Amgylchedd, Cyflogaeth, Polisi Rhanbarthol etc), ac maent yn ymdrin â chyfanswm o **26 o feysydd polisi.**

- Rhestr o gynigion symleiddio a chynigion sydd wedi'u tynnu'n ôl (Atodiadau 3 a 4 o'r Raglen Waith).

Yn yr un modd â phob Rhaglen Waith Flynyddol, dim ond **mentrau newydd ar gyfer 2010 a thu hwnt** sy'n cael eu hamlinellu gan y Comisiwn. Nid yw hyn yn rhoi'r darlun cyfan o'r gweithgareddau sy'n digwydd ym Mrwsel, gan fod amryw o gynigion eraill o raglenni gwaith blaenorol yn dal i weithio'u ffordd drwy'r broses ddeddfwriaethol, er enghraifft, y Gyfarwyddeb ddrafft ar hawliau cleifion i ofal iechyd traws-ffiniol, a gyhoeddwyd yn 2008 ac a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn 2009. Mae *Adran B.4* isod yn cynnwys detholiad o'r cynigion hynny sy'n cael eu hystyried yn arbennig o berthnasol i Gymru.

### B.2 Mentrau strategol ar gyfer 2010

Mae'r 34 o fentrau strategol wedi'u rhannu'n wyth maes:

- Mynd i'r afael â'r argyfwng economaidd (8 menter strategol) – gan ganolbwyntio ar arolygu/rheoli ariannol

- Gwneud cynnydd ar brif fentrau Ewrop 2020[3] (7 menter strategol)

- Mynd i'r afael â thagfeydd polisi Ewrop (4 menter strategol)

- Rhoi pobl wrth galon gweithredu Ewropeaidd ac adeiladu Ewrop i ddinasyddion (6 menter strategol)

- Sicrhau Ewrop agored a diogel (1 menter strategol)

- Mynd i'r afael â newidiadau tymor hir mewn cymdeithas (3 menter strategol)

- Cryfhau agenda fasnach Ewrop (2 fenter strategol)

---

[2] COM(2010)135 – ar gael yn http://ec.europa.eu/atwork/programmes/index_en.htm
[3] COM(2010)2020 – gweler http://ec.europa.eu/growthandjobs/index_en.htm

- Moderneiddio offerynnau a dulliau gweithio'r UE (3 menter strategol)

Mae nifer o faterion strategol ar y rhestr a fydd yn cael sylw mewn trafodaethau ym Mrwsel yn ystod 2010-2011. Mae'r rhain yn drafodaethau y mae'r Pwyllgor wedi bod yn eu dilyn yn ystod 2009 a dechrau 2010, sef:

- Strategaeth Ewrop 2020 (gan ganolbwyntio yn 2010 ar ddatblygu'r prif brosiectau a nodwyd yn y Strategaeth ddrafft)
- Y diweddaraf am **Adolygiad Cyllideb yr UE** (y trydydd chwarter)
- Y diweddaraf ar **ddyfodol y Polisi Amaethyddol Cyffredin** (y pedwerydd chwarter) – lansiodd yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig ymchwiliad i'r mater hwn yn ddiweddar.
- Y Pumed Adroddiad ar **Gydlyniant** Economaidd, Cymdeithasol a Thiriogaethol (y pedwerydd chwarter)

Mae'r rhestr hefyd yn cynnwys nifer o fentrau eraill sy'n ymddangos y gallant fod o ddiddordeb arbennig i Gymru:

- Adolygu'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith (y pedwerydd chwarter)
- Cyfleu gwybodaeth ar bolisi a strategaeth newydd yr UE ar fioamrywiaeth ar ôl 2010
- Y papur gwyn ar ddyfodol trafnidiaeth (y pedwerydd chwarter)
- Pecyn Seilwaith Ynni (y pedwerydd chwarter)

Awgrymir na ddylai nifer o'r meysydd y mae'r Comisiwn yn eu hystyried yn flaenoriaethau strategol fod yn flaenoriaethau ar gyfer gwaith y Pwyllgor hwn:

- ***Mynd i'r afael â'r argyfwng economaidd***: mae'r maes hwn yn canolbwyntio ar wella arolygu a rheoli ariannol yn y sector gwasanaethau ariannol ar draws Ewrop, gyda'r bwriad o osgoi argyfwng tebyg yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys rheolau ar gyfer deilliannau *(derivatives)*, gwerthu er mwyn gostwng y pris *(short selling)* / cyfnewid risg credyd *(credit default swaps)*, cynlluniau gwarantu adneuon (*deposit guarantee schemes)*, ac adolygu cyfarwyddebau cyfalaf. Bydd Llywodraeth y DU yn dilyn y materion hyn yn fanwl, oherwydd pwysigrwydd gwasanaethau ariannol, yn enwedig yn Llundain. Oherwydd hynny, mae'n debygol mai Tŷ'r Arglwyddi fydd yn parhau i graffu ar y mater hwn yn fanwl. Felly, nid yw'n flaenoriaeth i'r Pwyllgor hwn[4].
- Nid yw materion ynghylch ***masnach, diogelwch mewnol, mewnfudo, Rhaglen Stockholm, gallu'r UE i ymateb i drychinebau*** wedi eu cynnwys oherwydd eu bod yn faterion nad ydynt wedi eu datganoli, ac felly'n faterion y mae gan Lywodraeth y DU gyfrifoldeb llwyr drostynt.

### B.3 Rhestr ddangosol o fentrau strategol a blaenoriaethau posibl

[4] Gweler http://www.parliament.uk/parliamentary_committees/s_comm_a.cfm = am fanylion o'r gwaith craffu a gynhaliwyd yn y maes hwn yn ystod 2009-2010.

Fel y nodir uchod, yn ogystal â'r rhestr o 34 o fentrau strategol, mae'r Rhaglen Waith yn cynnwys rhestr o 280 o fentrau strategol a blaenoriaethau posibl ar gyfer 2010 a thu hwnt. Fel arfer, byddai'r Comisiwn yn llunio amserlen ar gyfer mabwysiadu'r rhestr o gynigion disgwyliedig. Fodd bynnag, ni chynhwysir y cam hwn yn y Rhaglen Waith ar gyfer 2010. Ar hyn o bryd, felly, nid yw'r wybodaeth ynghylch amserlen debygol y Comisiwn o ran mabwysiadu'r cynigion ar gael.

Ymhlith y rhestr o fwy na 280 o gynigion sy'n cael eu hystyried, mae yna sawl cynnig sy'n ymddangos y gallant fod o ddiddordeb i Gymru. Serch hynny, bydd y sefyllfa o ran penderfynu a ddylid rhoi sylw iddynt yn dod yn gliriach wedi i'r cynigion gael eu cyhoeddi.

Mae'r cynigion yn cynnwys:

- Diwygio'r **Gyfarwyddeb Gweithwyr a Leolir Dros Dro,** sef un o'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor gyda swyddogion y Comisiwn yn ystod ymweliad y Pwyllgor i Frwsel ym mis Chwefror 2009

- Sawl menter ym maes **Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**, gan gynnwys cynigion deddfwriaethol ar gyfer ardaloedd llai ffafriol, polisïau yn ymwneud ag ansawdd cynnyrch amaethyddol a mesurau newydd posibl yn ymwneud â chynhyrchwyr llaeth

- Sawl cynnig deddfwriaethol ac anneddfwriaethol yn ymwneud â **diogelu'r hinsawdd,** gyda'r nod o adolygu a chyflawni ymrwymiadau presennol yr UE

- Sawl cynnig yn ymwneud â'r **Agenda Ddigidol**, gan gynnwys strategaeth band eang a chyfathrebu ar ddyfodol hawliau a gwasanaethau cyffredinol. Ysgrifennodd y Cynghorydd Bob Bright, un o gynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau, bapur safbwynt personol ar ran y Pwyllgor ar hawliau a gwasanaethau cyffredinol yn 2008-2009.

- Cynigion deddfwriaethol ar gyfer ystod o raglenni ariannu'r UE, er enghraifft, yr 8fed Rhaglen Fframwaith ar gyfer ymchwil a datblygu, y Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Addasu i Effeithiau Globaleiddio, rhaglenni addysg a diwylliant a'r rhaglen arloesi a chystadleurwydd

- Cyfarwyddeb newydd ar **effeithlonrwydd dŵr mewn adeiladau** ac **adolygiad o'r 6ed Rhaglen Weithredu er mwyn Diogelu'r Hinsawdd.**

**B.4 Cynigion sy'n dal i weithio'u ffordd drwy'r broses o wneud penderfyniadau yn yr UE**

Fel y nodir yn adran B.1, ni chynhwysir nifer o fentrau parhaus yn Rhaglen Waith y Comisiwn ar gyfer 2010, gan eu bod wedi eu cynnwys yn y system eisoes neu wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar.

Mae'r mentrau sy'n cael eu hystyried yn rhai sydd o ddiddordeb arbennig i Gymru fel a ganlyn:

- Cyfarwyddeb ddrafft ar **Hawliau Cleifion i Ofal Iechyd Traws-ffiniol**: cyfarwyddeb sy'n ceisio egluro hawliau cleifion i gael gofal iechyd y tu allan i'w gwledydd eu hunain, gan

gynnwys hawlio taliadau am driniaeth feddygol oddi wrth eu system gofal iechyd eu hunain

- Cynigion deddfwriaethol ar gyfer **Label Treftadaeth Ewropeaidd**[5]: cynigion newydd, a gyhoeddwyd ar 9 Mawrth 2010, i greu **Label Treftadaeth i'r UE** er mwyn codi proffil safleoedd ar draws yr UE sydd wedi gwneud cyfraniad allweddol i'r broses o hyrwyddo ac adeiladu'r Undeb

- Cynigion i greu rheolau mewn perthynas â'r **Fenter Dinasyddion** a gyflwynwyd gan Gytuniad Lisbon. Bydd y fenter yn galluogi dinasyddion yr UE i gynnig deddfwriaeth newydd, yn amodol ar eu gallu i gael llofnodion o gefnogaeth gan filiwn o ddinasyddion eraill yn yr UE.

- Ail-lunior: (i) Y Gyfarwyddeb ar y gwastraff sy'n gysylltiedig â'r defnydd o gyfarpar trydanol ac electronig (WEEE) (ii) Cyfyngiadau ar y defnydd o sylweddau peryglus penodol (Jill Evans ASE yw'r rapporteur ar gyfer y ddogfen hon)

## C. Argymhellion o'r materion strategol y dylai'r Pwyllgor eu mabwysiadu yn ystod 2010-11

Tynnwyd sylw at nifer o'r materion strategol allweddol sydd yn Rhaglen Waith y Comisiwn i'r Pwyllgor eu defnyddio fel sail ar gyfer ei waith am 2010-11, fel yr amlinellir yn nhabl 1 isod.

Mae'r lefel o barhad yn uchel, gan fod y Pwyllgor eisoes yn cyfrannu at nifer o'r trafodaethau allweddol a fydd yn datblygu dros y blynyddoedd nesaf: Strategaeth Ewrop 2020, dyfodol y Polisi Cydlyniant a dyfodol Cyllideb yr UE.

**Tabl 1: Argymhellion o'r materion strategol y dylai'r Pwyllgor eu mabwysiadu yn ystod 2010**

| Mater strategol | Lefel Ewropeaidd | Pam ddylai'r Pwyllgor ei ddilyn? |
|---|---|---|
| **Dyfodol y Polisi Cydlyniant** | ▪ Mabwysiadu'r **Pumed Adroddiad ar Gydlyniant** yn ystod chwarter olaf 2010 | ▪ Cwblhau'r ymchwiliad presennol<br>▪ Mater allweddol i Gymru, gan ystyried lefelau presennol y cronfeydd strwythurol<br>▪ Dylanwadu ar safbwynt Llywodraeth y Cynulliad ac ar safbwynt negodi'r DU |
| **Adolygu Cyllideb yr UE** | ▪ Cyflwyno papur trafod ynghylch **adolygu Cyllideb yr UE** yn ystod trydydd | ▪ Gwaith perthnasol yn ymwneud â chydlyniant a Strategaeth Ewrop 2020 |

[5] COM(2010)76, 9 Mawrth 2010 – gweler http://ec.europa.eu/culture/our-programmes-and-actions/doc2519_en.htm

| | | |
|---|---|---|
| | chwarter 2010 | ▪ Goblygiadau sy'n berthnasol i bob ffynhonnell o gyllid Ewropeaidd y mae Cymru'n elwa ohoni |
| **Strategaeth Ewrop 2020** | ▪ Y Comisiwn i gyflwyno cynigion yn ymwneud â sawl menter flaenllaw a nodir yn Strategaeth Ewrop 2020<br>▪ Y Cyngor Ewropeaidd i fabwysiadu strategaeth ym mis Mehefin, gan gynnwys canllawiau integredig a thargedau cenedlaethol | ▪ Cwblhau'r ymchwiliad presennol<br>▪ Adolygu gallu Cymru i elwa o'r mentrau blaenllaw<br>▪ Egluro sut mae Llywodraeth Cymru wedi dylanwadu ar dargedau cenedlaethol y DU a sut mae'n bwriadu cyflawni'r targedau hyn yng Nghymru |
| **Y Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Addasu i Effeithiau Globaleiddio** | ▪ Addaswyd rheolau'r Gronfa yn ystod 2009 er mwyn sicrhau'r cyfle i'w defnyddio mewn ymateb i'r argyfwng economaidd<br>▪ Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi cynigion ar gyfer y Gronfa ar gyfer y cyfnod wedi 2013 (dyddiad heb ei gadarnhau eto) | ▪ Archwilio gallu Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r offeryn ariannu hwn i gefnogi ymdrechion busnesau a leolir yng Nghymru i ailstrwythuro yn sgîl effeithiau'r argyfwng economaidd |
| **Y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith** | ▪ Yn dilyn methiant i gael cytundeb yn ystod y Comisiwn diwethaf, mae cynllun newydd ar y gweill ar gyfer pedwerydd chwarter 2010 | ▪ Adolygu unrhyw oblygiadau a fyddai'n deillio o newidiadau i drefn eithrio'r DU yng Nghymru, yn enwedig o ran oriau gwaith hir i weithwyr allweddol yn y sector cyhoeddus |
| **Adolygu cyfraniad rhanddeiliaid o Gymru i raglenni ariannu'r UE** (ac eithrio prif raglenni'r | ▪ Cyflwynir cynigion ar gyfer rhaglenni ariannu'r dyfodol yn ystod 2010-2012<br>▪ Bydd yr adolygiad o | ▪ Cyfle i adolygu lefel y cyfraniad a wneir gan randdeiliaid o Gymru i raglenni'r UE; archwilio lefel y cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru; a chyflwyno argymhellion ynghylch y camau |

| | | |
|---|---|---|
| Cronfeydd Strwythurol) | Gyllideb yr UE yn ystyried proffil gwario a blaenoriaethau presennol cyllideb yr UE | pellach y gellir eu cymryd er mwyn cynyddu'r ymgysylltiad hwn<br>▪ Canolbwyntio, o bosibl, ar brosiectau â chydweithredu traws-ffiniol, a'r graddau y mae mentrau'n cael eu datblygu mewn cyswllt â phartneriaid rhanbarthol Cymru |
| **Y Gyfarwyddeb ar Hawliau Cleifion i Ofal Iechyd Traws-ffiniol** | ▪ Mae'r Gyfarwyddeb ddrafft yn dal i weithio'i ffordd drwy broses ddeddfwriaethol yr UE. Parhau i aros am safbwynt cyffredin yn y Cyngor ac ail ddarlleniad yn Senedd Ewrop | ▪ Y Pwyllgor i fonitro'r datblygiadau diweddaraf sy'n deillio o'r trafodaethau a gynhelir gan y Cyngor a'r Senedd |

## D. Materion posibl y gellid eu cyfeirio at bwyllgorau eraill y Cynulliad

Mae'r tabl isod yn awgrymu'r cynigion deddfwriaethol y mae disgwyl i'r Comisiwn eu cyflwyno yn ystod 2010 a thu hwnt y gellid eu cyfeirio at bwyllgorau eraill y Cynulliad i'w hystyried. Mae cyfyngiadau ar nifer y materion Ewropeaidd y bydd y Pwyllgor yn gallu eu hystyried yn ystod 2010, ac mae rhai materion yn amlwg yn dod o fewn cylch gwaith pwyllgorau eraill.

**Tabl 2: Cynigion deddfwriaethol y gellid eu cyfeirio at bwyllgorau eraill y Cynulliad**

| Gweithgareddau arfaethedig y Comisiwn Ewropeaidd (cynhwysir amserlen os cyfeirir ati yn y Rhaglen Waith ar gyfer 2010) | Pwyllgor |
|---|---|
| Cyfathrebu ar ddyfodol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (pedwerydd chwarter 2010) | Datblygu Gwledig |
| Y sector llaeth: (i) Camau dilynol i'r Grŵp Lefel Uchel ar Laeth; (ii) Adroddiad ar gwotâu llaeth yn dilyn yr archwiliad iechyd | Datblygu Gwledig |
| Cynigion ar gyfer diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin | Datblygu Gwledig |
| Cynigion deddfwriaethol ym maes Iechyd Anifeiliaid | Datblygu Gwledig |
| Pecyn ar ansawdd cynnyrch amaethyddol | Datblygu Gwledig |

| | |
|---|---|
| Ardaloedd llai ffafriol (cynigion deddfwriaethol) | Datblygu Gwledig |
| Diwygio'r Gyfarwyddeb Gweithwyr a Leolir Dros Dro | Menter a Dysgu |
| Adroddiad gwerthuso ar wasanaethau o ddiddordeb cyffredinol (yn ystod 2010), ac yn dilyn hynny, cynigion ar gyfer diwygio rheolau 2005 (yn ystod 2011) | Menter a Dysgu |
| Papur Gwyn ar ddyfodol trafnidiaeth (y pedwerydd chwarter); diwygio canllawiau'r Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd | Menter a Dysgu |
| Cyfathrebu ar agenda ddigidol i Ewrop | Menter a Dysgu/Cymunedau a Diwylliant |
| Agenda ddigidol: strategaeth band eang; (ii) dyfodol gwasanaethau cyffredinol a hawliau defnyddwyr | Menter a Dysgu/Cymunedau a Diwylliant |
| Cyfathrebu ar bolisi a strategaeth bioamrywiaeth newydd i'r UE ar gyfer y cyfnod wedi 2010 (y pedwerydd chwarter) | Cynaliadwyedd |
| Pecyn seilwaith ynni (y pedwerydd chwarter); Cynllun Gweithredu Ynni 2011-2020; diwygio'r Gyfarwyddeb Treth Ynni; cyfathrebu ar gerbydau gwyrdd | Cynaliadwyedd |
| Cyfathrebu ar brif-ffrydio'r ymdrechion i addasu i'r newid yn yr hinsawdd ac i'w liniaru; map ffordd i greu economi carbon isel; cyfathrebu ar ddadansoddi'r polisïau ymarferol sydd eu hangen i gyflawni lleihad o 30% mewn allyriadau yn yr UE ac asesu'r sefyllfa ynghylch diwydiannau dwys o ran ynni | Cynaliadwyedd/Cymunedau a Diwylliant |
| Cynnig i greu Label Treftadaeth Ewropeaidd (cyhoeddwyd ar 9 Mawrth 2010) | Cymunedau a Diwylliant |
| Cynllun gweithredu e-iechyd | Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol |